Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Croeso i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Pwyllgor

Bwriedir i'r wybodaeth ddiweddaraf hon am weithgareddau diweddar y Pwyllgor a gweithgareddau yn y dyfodol ehangu cyfranogiad yng ngweithgareddau'r Pwyllgor a'ch helpu i ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd i swyddogion ac Aelodau. Cafodd ei lunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

Mae llif Twitter y Pwyllgor **@SeneddESS** yn cynnwys ein holl newyddion diweddaraf, a manylion am ymchwiliadau a chyfarfodydd.

Gwaith a wnaed yng ngwanwyn 2018

Adfywio canol trefi: 5 mlynedd yn ddiweddarach

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** (PDF 216KB) byr ym mis Chwefror a derbyniodd **ymateb** gan y Gweinidog Tai ac Adfywio ar 7 Mawrth. Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y pwnc hwn o bryd i'w gilydd.

Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru

Arweiniodd y Pwyllgor ddadl ar ei **adroddiad** – (PDF 1MB) yn Siambr y Senedd ar 24 Ionawr.

Gellir gweld fideo o'r sesiwn ar **Senedd.tv**, ac mae'r **trawsgrifiad** hefyd ar gael. Yn ei **ymateb** (PDF 186KB), derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet neu dderbyn mewn egwyddor bob un ond dau o'r 11 o argymhellion y Pwyllgor.

Cynllunio cludiant mewn digwyddiadau mawr

Yn dilyn peth sylw negyddol ar y cyfryngau ynglŷn â chynllunio cludiant mewn cysylltiad â gornest Anthony Joshua yng Nghaerdydd ar 28 Hydref 2017, **ysgrifennodd** (PDF 22KB) y Pwyllgor at yr asiantaethau o dan sylw yn eu gwahodd i ymateb.

Derbyniodd y Pwyllgor **ymatebion** gan yr holl asiantaethau o dan sylw ac **ysgrifennodd** yn ôl yn fodlon bod y rhan fwyaf o'r agweddau ar gynllunio cludiant ar gyfer y digwyddiad wedi ymddangos yn effeithiol.

Prentisiaethau yng Nghymru 2017

Ar 14 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad** (PDF 700KB) a oedd yn cynnwys 14 o argymhellion a 17 o gasgliadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei hymateb yn fuan.

Cynhelir dadl ar yr adroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru, yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mai.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 a'r Cynllun Gweithredu Economaidd

Ar 17 Ionawr, cynhaliodd y **Pwyllgor sesiwn graffu ddilynol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth** ar gyllideb ddrafft 2018-19 a chraffu, hefyd, ar ei Gynllun Gweithredu Economaidd newydd.

Oherwydd cyfyngiadau amser yn ystod y cyfarfod, **ysgrifennodd** y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet wedyn yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y gyllideb ddrafft, a

gwaith parhaus a gwaith yn y dyfodol. Cafodd y Pwyllgor **ymateb** gan Ysgrifennydd y Cabinet ar 31 Ionawr.

Pwerau Newydd: Posibiliadau Newydd

O dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru ddiweddaraf a ddeddfwyd ar 1 Ebrill 2018, mae gan y Llywodraeth bwerau newydd dros drafnidiaeth.

Cynhaliodd y Pwyllgor dri gweithdy gyda phaneli arbenigol i drafod y ddeddfwriaeth a pha faterion y gallai fod yn bosibl mynd i'r afael â hwy. Roedd y gweithdai'n canolbwyntio ar **gofrestru bysiau, tacsis / ceir hurio preifat** a **phorthladdoedd**.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at randdeiliaid hefyd i ofyn am farn ar bwerau datganoledig yn ymwneud â therfynau cyflymder a chafodd **dri ymateb**.

Yn dilyn y gweithdai, **ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth** (PDF 703KB) gyda chrynodeb o'r materion allweddol a godwyd ac anfonodd **lythyr** (PDF 94KB) arall ato mewn perthynas â chyfyngiadau cyflymder.

Digideiddio

Ar 25 Ionawr, cynhaliodd y **Pwyllgor sesiwn ffurfiol gyda chynrychiolwyr Openreach** i drafod a oedd wedi cwrdd â'i ofynion cytundebol o dan raglen Superfast Cymru a thrafod y materion ehangach ynghylch cyfathrebu a chynllunio'r rhaglen.

Yn dilyn y sesiwn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Openreach yn gofyn am fwy o wybodaeth a derbyniodd ei ymateb (PDF 718KB) (Saesneg yn unig) ar 20 Chwefror.
Anfonodd y Pwyllgor **lythyr** (PDF 77KB) arall ar 19 Mawrth yn gofyn i Openreach ymhelaethu ymhellach ar ei ymateb cychwynnol. **Ymatebodd** (PDF 102KB) Openreach ar 22 Mawrth.

Cyn y sesiwn gydag Openreach, craffodd y Pwyllgor ar waith **Arweinydd y Tŷ** ar Gynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru, sef dogfen fewnol a fwriedir i wella prosesau digidol o fewn Llywodraeth Cymru ac yn ei rhyngweithiau allanol.

Fe graffodd y Pwyllgor hefyd ar waith Arweinydd y Tŷ o ran ymyriadau band eang Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Superfast Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y pwnc hwn o bryd i'w gilydd.

Ardaloedd Menter

Parhaodd y Pwyllgor i graffu ar y maes polisi hwn drwy gynnal sesiynau tystiolaeth ffurfiol gyda Chadeiryddion byrddau'r Ardaloedd Menter ar **31 Ionawr** a **14 Chwefror**.

Cynhaliwyd sesiwn graffu gydag **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth** ar 14 Chwefror.

Ar 8 Chwefror, aeth y Pwyllgor ar ymweliad i gwrdd â Chadeiryddion byrddau Ardaloedd Menter Eryri ac Ynys Môn a chynrychiolwyr busnesau a leolir yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bwriedir ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 - Craffu ar ôl Deddfu

Dechreuodd y Pwyllgor ei waith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf drwy gyhoeddi

ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2017 a ddennodd 27 o ymatebion.

Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg cyhoeddus a grwpiau ffocws hefyd i gasglu tystiolaeth bellach cyn y sesiynau tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2018. Cafwyd tua 2500 o ymatebion i'r arolwg.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda phaneli o dystion a oedd yn cynrychioli **ymgyrchwyr, yr amgylchedd adeiledig, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, grwpiau anabledd** a **llywodraeth leol**.

Ar 21 Mawrth, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y **Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**.

Mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bwriedier ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf.

Gwaith y pwyllgor ar gyfer tymor yr haf 2018

Er gwybodaeth, gall y wybodaeth am ddyddiadau a phynciau ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau newydd godi.

Gellir cael y wybodaeth ddiweddaraf yn: **http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=446**

Yr Ardoll Prentisiaethau - flwyddyn yn ddiweddarach

Yn **adroddiad Ardoll Prentisiaethau** (PDF 411KB) y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017, argymhellodd adolygu effaith yr ardoll ar ôl iddo fod ar waith am flwyddyn.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at y rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad y llynedd – ac unigolion eraill sydd wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn ers hynny – i asesu effaith yr ardoll. Cafodd y Pwyllgor nifer o **ymatebion** a bydd yn craffu ar waith Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 19 Ebrill.

Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog yn fuan ar ôl y sesiwn graffu gyda'i gasgliadau.

Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar bynciau'n ymwneud â thrafnidiaeth

Ar 25 Ebrill, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar ystod eang o bynciau'n ymwneud â thrafnidiaeth. Bydd y rhain yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd, y fasnachfraint rheilffordd, tollau Pont Hafren, y pwerau trafnidiaeth datganoledig newydd a chludiant cymunedol.

Awtomeiddio ac Economi Cymru

Ym mis Mai, bydd y Pwyllgor yn dechrau ar ddarn o waith i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd a godir gan **awtomeiddio**.

Gwahoddir ystod o arbenigwyr i lywio trafodaeth sy'n edrych ar y materion hyn a pha rôl y gallai Llywodraeth Cymru ei chwarae i hwyluso'r newid i bosibiliadau newydd.

Bydd y Pwyllgor yn trafod y darnau rhyng-gysylltiedig canlynol o waith "arweinyddiaeth meddwl":

- Awtomeiddio ac Economi Cymru
- Swyddi coler gwyn
- Dyfodol Sgiliau
- Amaethyddiaeth fanwl, a
- Cerbydau hunan-yrru

Bydd y Pwyllgor yn gobeithio gwahodd Gweinidog(ion) y Llywodraeth i sesiwn ffurfiol i drafod y pynciau hyn.

Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Ar 17 Mai, bydd y Pwyllgor yn cynnal gwrandawiad cyn penodi ar gyfer y Cadeirydd newydd arfaethedig. Roedd y gwrandawiad yn un o argymhellion (Rhif 6) **adroddiad** (PDF 803KB) y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017.

Nod y Pwyllgor fydd cyhoeddi ei adroddiad o fewn 48 awr i'r gwrandawiad fel sy'n arferol.

Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor wedi dechrau ei ymchwiliad i gyflwr y ffyrdd yng Nghymru trwy gyhoeddi **ymgynghoriad** a fydd yn cau ar 27 Ebrill.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar:

- Cyflwr y rhwydwaith o ffyrdd lleol, y cefnffyrdd a'r traffyrdd, a'r dull o'u cynnal a'u cadw;
- Cyflawni prosiectau gwella ar y rhwydwaith o ffyrdd lleol, y cefnffyrdd a'r traffyrdd; ac
- I ba raddau y mae'r dulliau o gynnal a chadw a gwella priffyrdd yn gynaliadwy.

Ym mis Mehefin, bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth lafar gan ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys academyddion, defnyddwyr ffyrdd, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, llywodraeth leol, cyrff peirianneg sifil a chynrychiolwyr busnes.

Ar ôl casglu tystiolaeth, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn graffu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Craffu ar waith Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn graffu gyda'r Athro Peter Halligan, sydd newydd ei benodi'n Brif Gynghorydd Gwyddonol Cymru.

Gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o broses graffu ariannol reolaidd y Pwyllgor, caiff sesiwn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei threfnu ar gyfer tymor yr haf.

Digwyddiad diwedd blwyddyn i randdeiliaid

Caiff digwyddiad diwedd blwyddyn i randdeiliad i drafod y gwaith a wnaeth y Pwyllgor ac ystyried syniadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol ei gynnal ym mis Gorffennaf.

Cylch gwaith

Cafodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ei sefydlu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafnidiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Manylion cyswllt

Gallwch gysylltu â'r tîm clercio drwy e-bost: **SeneddESS@Cynulliad.Cymru**

Ffoniwch ni: **0300 200 6565**

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddESS**

Gwefan: **www.cynulliad.cymru/seneddESS**

Aelodau'r Pwyllgor

Russell George AM
Welsh Conservatives (Chair)

Hefin David AM
Welsh Labour

Vikki Howells AM
Welsh Labour

Mark Isherwood AM
Welsh Conservatives

Adam Price AM
Plaid Cymru

David J Rowlands AM
UKIP Wales

Lee Waters AM
Welsh Labour

Joyce Watson AM
Welsh Labour